

Rhydwythiad ac ocsidiad

- MAGS Haia. Mags a Cal sydd yma.
- CAL Dw i ar fin mynd i'r labordy i weld sut mae ennill neu golli ocsigen yn gwneud newid mawr i fetelau.
- MAGS Ar dy feic, 'ta.
- CAL Mae metelau'n ddefnyddiol iawn. Mae llwyth o bethau wedi eu gwneud o fetel – fel fy meic i.
- Mae'r rhan fwyaf o fetelau'n dod o fwynau, sef creigiau sy'n cynnwys metel. I gael y metel, rhaid ei wahanu oddi wrth y mwyn efo adwaith cemegol.
- Beth am weld sut mae colli neu ennill ocsigen yn effeithio ar fetelau efo adweithiau rhydwythiad ac ocsidiad.
- Rhydwythiad ydy colli ocsigen o adweithydd. Mae'r ocsigen yn dianc, ychydig bach fel yr aer sy'n dianc o'r teiars. Dylwn i wedi trwsio'r pyncsiar araf 'na.
- Ocsidiad ydy sylwedd sy'n ennill ocsigen. Mae ei theiars hi'n ennill ocsigen yn yr aer mae hi'n ei bwmpio mewn.
- MAGS Rwyf ti'n gadael dy feic yn y glaw drwy'r amser. Mae'n gwneud iddo fo rydu, 'sdi?
- CAL Fedra' i esbonio'r rhwd.
- MAGS Medri – dwyt ti ddim yn gofalu am dy feic.
- CAL Na, fedra'i esbonio fo o ran ocsigen. Adwaith ocsidiad ydy rhwd – mae'r haearn yn adweithio efo dŵr ac ocsigen, ac yn ennill yr ocsigen.
- Rwyf ti'n gallu nabod ocsidiad – sef ennill ocsigen – drwy edrych ar y fformiwla. Mae'r haearn wedi ennill ocsigen – mae o wedi cael ei ocsidio.
- Mae haearn a dur yn rhydu dros amser pan maen nhw'n agored i ocsigen – yr aer – a dŵr, fel y glaw hyfryd 'ma.
- Yr haearn(III) ocsid hydradol ydy'r rhwd orenfrown oedd ar gadwyn fy meic i. Dyma fo hefyd ar glo fy meic i.
- Felly, ocsidio oedd hynny. Ar y llaw arall, colli ocsigen ydy

rhydwythiad.

Er enghraifft, mae copr(II) ocsid yn cael ei rydwytho i ffurfio copr pan mae o'n adweithio efo hydrogen.

Mae'n amlwg mai adwaith rhydwytho ydy hwn achos mae'r ocsigen wedi mynd o'r copr, am fod yr hydrogen wedi ei ddwyn o, ac wedi ffurfio dŵr. Felly rŵan, mae copr a dŵr gennym ni.

MAGS

Cŵl. Ond, os mai clo dy feic di ydy hwnna, beth sy'n rhwystro rhywun rhag dwyn dy feic di?